# Eisteddfod
# Talaith a Chadair Powys
# Bro Ddyfi
# 2026

## RHESTR TESTUNAU

## Y Tabernacl, Machynlleth
## 3 & 4 Gorffennaf 2026

*Dyluniwyd Logo'r Eisteddfod gan Gwenni Edwards-Dixon*
*Ysgol Glantwymyn*

Eisteddfod Powys

Bro Ddyfi

2026

**Croeso'r Cadeirydd**

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, mae'n bleser o'r mwyaf cael cyflwyno ein Rhestr Testunau ar gyfer Eisteddfod Talaith a Chadair Powys – Machynlleth 2026.

Mae'r ardal yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r Eisteddfod yn ôl i'r dref ar ôl seibiant o 14 mlynedd.

Mae gen i gyswllt â'r Eisteddfod sy'n mynd yn ôl tua 35 mlynedd – (sy'n gwneud i mi deimlo'n andros o hen!) gan i mi fod yn gyw-gadeirydd ar Bwyllgor Drama'r ŵyl pan ddaeth yr Eisteddfod i'r dref yn 1989, ac yn dilyn hynny rwyf wedi cynnal diddordeb achlysurol yn yr Eisteddfod fel cystadleuydd a chefnogwr. Felly, mae cael cadeirio'r Pwyllgor Gwaith eleni yn fraint ac yn bleser gan fod yr aelodaeth yn ffyddlon, yn frwdfrydig ac yn weithgar ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at groesawu pawb i'r dref ddechrau mis Gorffennaf 2026.

Mae Dyffryn Dyfi yn gadarnle i ddiwylliant Cymreig yn sir Drefaldwyn ac mae'r traddodiad Eisteddfodol yn ffynnu yn y dyffryn. Mae yma gorau a phartïon niferus a chystadleuwyr unigol dawnus sy'n cefnogi Eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae MOMA Machynlleth, neu'r Tabernacl fel y'i gelwir yn lleol, yn ganolfan gelfyddydol nodedig sydd wedi cefnogi'r diwylliant celfyddydol a diwylliannol yn y dref ers deugain mlynedd – a dyma fydd yr awditoriwm amlwg ar gyfer cystadlaethau llwyfan Eisteddfod Talaith a Chadair Powys 2026.

Mae hen hanesion niferus a nodedig yn gysylltiedig â'r ardal; coronwyd Owain Glyndŵr yn dywysog Cymru yn y dref yn 1404 ac yma fe sefydlodd Senedd gyntaf Cymru, a chyfeirir at y dref fel Prifddinas hynafol Cymru. Cofir hefyd am Dafydd Llwyd Mathafarn, Lleucu Llwyd Dolgelynen, carcharu Dafydd Gam yn Royal House, Cogau Abercuag a llawer mwy...

Mae Machynlleth yn dref farchnad fyrlymus a hygyrch; mae yma bont newydd i'ch croesawu o'r gogledd, gwasanaeth bws Traws-Cymru sy'n cysylltu'r de a'r gogledd, a gorsaf reilffordd brysur sy'n cysylltu'r dwyrain a'r gorllewin – felly heidiwch yma i'r dyffryn i gefnogi'r Eisteddfod ac i ddod i adnabod yr ardal – mae yma groeso cynnes ar eich cyfer.

Alun Jones<br>Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

**Cywydd Croeso Eisteddfod Talaith a Chymrodoriaeth Powys, Bro Ddyfi 2026**

Dewch â'ch gwên yng Ngorffennaf
Dewch  i groeso bro mor braf,
O! Dewch yn daer, dewch yn don
I'n gŵyl i godi'r galon;
A llifwch dros ein llwyfan
Gymry gwâr, o bedwar ban.

Dewch! Dewch! I hen dre Glyndŵr
I aros, dewch *chi'n* arwr!
Tyrrwch i godi twrw
Ag arf llên, ac ar fy llw
Oedi wna'r traffig wedyn
A mynnu gair wrth Maen Gwyn.

"Sounds great! What's happ'ning  matey?"
"'Steddfod's hit town, showdown see!"
Cawn o'r Plas sŵn canu'r plant,
Olyniaeth a dilyniant,
Drwy'n sain, saif yr hen dre'n syn,
Troi'r hud ar Bentrerhedyn.

Dewch â'ch gwên yng Ngorffennaf
Dewch i groeso, bro mor braf;
A dyfal fel llif Dyfi
Yw ei hoen a'i hawen hi,
Hen Bowys sy'n llawn bywyd,
Y mae hon yma o hyd.

**Pryderi Jones**
**(Arwyddfardd)**

## CYMRODORIAETH EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS

Sefydlwyd y Gymrodoriaeth yn 1913 dan lywyddiaeth Penfro '*yn cael ei gynorthwyo gan Cadfan a lliaws beirdd, llenorion a cherddorion Powys*' gyda'r diben o sicrhau cydweithrediad cyffredinol yn y Dalaith i gynnal Eisteddfod Flynyddol ac i ddyrchafu safon yr eisteddfodau yn ei thestunau a'i chynhyrchion.

EISTEDDFODAU O FEWN Y DALAITH: Mae'r Gymrodoriaeth erbyn hyn yn rhoi cymorth ariannol i eisteddfodau annibynnol a gynhelir yn rheolaidd o fewn y Dalaith. Dylai'r ceisiadau, ynghŷd â mantolen ariannol wedi'i archwilio, a chopi o Raglen yr Eisteddfod, fod yn llaw'r Trysorydd yn ddi-ffael erbyn y dydd olaf o Ragfyr.

EISTEDDFODAU'R DYFODOL: Os oes ardal ag awydd gwahodd Eisteddfod 2027 neu 2028, gadewch i ni wybod, os gwelwch yn dda. Mae'r Gymrodoriaeth wedi cofrestru fel elusen, fel y gall pwyllgorau lleol fanteisio trwy wneud ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James Pantyfedwen. Cefnogir Eisteddfodau Powys yn flynyddol gan yr Ymddiriedolaeth hon.

AELODAU: Mae aelodaeth o'r Gymrodoriaeth yn agored i bob Eisteddfodwr a charedigion llên, awen a cherdd ac nid yw'r tanysgrifiad ond £20 am oes. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb a gâr ein diwylliant i ymaelodi. Anfonwch at y Cofiadur:-

Sioned Elin Hughes, Gwytheyrn, Pennant, Llanbrynmair, Powys. SY19 7BH.
Rhif Ffôn : 07971520122 e-bost:- eisteddfodpowys@outlook.com

PWYSIG : Nid yw'r Gymrodoriaeth yn derbyn rhagor o Gwpanau na Thlysau fel gwobrau.

Cwpanau sydd i'w dal am flwyddyn i'w **dychwelyd os gwelwch yn dda** i Mrs Laura Richards, Gwenyndy, Y Foel, Trallwm, Powys (Rhif ffôn : 01938 820142) o leiaf fis cyn yr Eisteddfod.

*Sioned Elin (Cofiadur)*

CYMRODORIAETH EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS

## Swyddogion 2025/26

| | |
|---|---|
| Llywydd: | Hedd Bleddyn |
| Cadeirydd: | John Price |
| Is-Gadeirydd: | David Ellis |
| Trysorydd: | Bryn Peryddon Davies |

## Swyddogion yr Orsedd

| | |
|---|---|
| Y Derwydd Gweinyddol: | Beryl o Gefnllys |
| Dirprwy Dderwydd Gweinyddol: | Arwyn Groe |
| Cyn-Dderwyddon Gweinyddol: | Hedd Bleddyn |
| | Emyr ap Erddan |
| | Marlis Ogwen |
| | Huw Ceiriog |
| | Tom Erfyl |
| Cofiadur: | Sioned Elin |
| Arwyddfardd: | Pryderi |
| Dirprwy Arwyddfardd: | Lowri Hywel |
| Ceidwad y Cledd: | Glandon |
| Dirprwy Geidwad y Cledd: | Gwernfab |
| Telynores: | Telynores Powys |
| Dirprwy Delynores: | Cadi Glwys Telynores Sycharth |
| Cornydd: | Philip ap Islwyn |
| Dirprwy Gornydd: | Helen o Faldwyn |
| Meistresi'r Gwisgoedd: | Marian o Fawddwy |
| Eirian Mai | |
| Marged Feddyg | |
| | Nia Nefyl |
| Banerwr: | Dafydd Henlle |
| Dirprwy Fanerwr: | Rhiwarth |
| Arolygwr Llwyfan a Seremonïau: | Rhian Angharad Ferch Dai |
| Swyddog Cwpanau a Thlysau: | Lowri Cadfan |


*Gwahoddir yn galonnog i bawb ym Mhowys a gâr Lên, Awen a Chân i ymaelodi â'r Gymrodoriaeth. Tal am oes £20.*
*Derbynnir enwau'r cyfryw gan:- Sioned Elin (Cofiadur) -*
*Sioned Hughes, Gwytheyrn, Pennant, Llanbrynmair, Powys. SY19 7BH.*
*Rhif Ffon: 07971520122*

## Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod

1. Dylid anfon pob gohebiaeth i'r Ysgrifennydd/ion Cyffredinol (oni nodir yn wahanol). Gellir defnyddio e-bost. Os am dderbyn ateb / gwybodaeth trwy'r post, dylid amgáu amlen â stamp arni.
2. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl i benodi beirniaid yn lle rhai sy'n absennol trwy amgylchiadau anorfod. Bydd gan y Pwyllgor hawl hefyd i ddewis beirniaid ychwanegol.
3. Cyflwynir dyfarniad y beirniaid yn unig o'r llwyfan ond gall cystadleuwyr dderbyn copi ysgrifenedig o sylwadau'r beirniad.
4. Ni wobrwyir oni bydd teilyngdod.
5. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus yn yr Eisteddfod. Gellir cyflwyno gwrthdystiad ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Bydd dyfarniad y Pwyllgor yn derfynol ar bob mater.
6. **Rhaid i'r ymgeiswyr ar bob cystadleuaeth llwyfan, lle nodir oedran, fod o fewn yr oedran / flwyddyn ysgol briodol ar y 1af Medi 2025**
7. Rhaid i'r cystadleuwyr fod yn bresennol ac ymddangos pan elwir eu henwau yn y Rhagbrofion a'r Cystadlaethau Terfynol neu atelir hwy rhag cystadlu.
8. Canlyniadau'r rhagbrofion i gael eu cyhoeddi ar safle'r Eisteddfod yn unig.
9. Rhoddir manylion am amser a lleoliad rhagbrofion yn Rhaglen y Dydd.
10. Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am golled neu ddamwain o unrhyw fath ar safle'r Eisteddfod.
11. Ni ystyrir unrhyw gynnyrch a wobrwywyd o'r blaen.
12. Mae'r holl gystadlaethau i'w cynnal dan yr Amodau Cyffredinol hyn - ynghŷd ag Amodau Arbennig yr Adran y mae'r gystadleuaeth yn perthyn iddi. (Gweler Amodau Arbennig y Pwyllgorau Testun)
13. Dylid anfon enwau'r holl ymgeiswyr yn y cystadlaethau llwyfan at Ysgrifenyddion Y Pwyllgorau perthnasol. Gweler y manylion cyswllt isod ar dudalen "Swyddogion Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod".

### Cwpanau a Gwobrau

Rhoddir enwau Rhoddwyr Gwobrau Ariannol a Chwpanau yn Rhaglen y Dydd. Cydnabyddir pob cyfraniad ariannol **dros £25** tuag at yr Eisteddfod wrth enwau'r Rhoddwyr yn Rhaglen y Dydd.



**EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS BRO DDYFI 2026**

**SWYDDOGION AC AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH**

**Cadeirydd**: Alun Jones alun.glanmerin@gmail.com

**Is-gadeirydd**: Hedd Pugh heddpugh@me.com

**Trysorydd**: Huw Jones huwjones792@btinternet.com

**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Grug Muse 07367298289 elan.grug@gmail.com

Bryn Tyrnol, Machynlleth, SY20 8TL

**Swyddogion Is- Bwyllgorau:** **C= Cadeirydd** **Y= Ysgrifennydd**

**Cerdd**: **C** Alwyn Evans alwyn_evans@hotmail.co.uk
**Y** Heledd Besant heleddb@gmail.com

**Llên a Llefaru**: **C** Pryderi Jones Nant y Mynydd, Glantwymyn, Machynlleth, Powys, SY20 8LF
pryderi83@gmail.com
**Y** Nia Jones niaj3876@gmail.com

**Cerdd Dant a Chanu Gwerin:** **C** Geunor Roberts
**Y** Menna Blake mennablake@gmail.com

**Dysgwyr**: **C** Elin Williams Elin Williams, Dysgu Cymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Campws Gogerddan, Aberystwyth, SY23 3EE.
eiw@aber.ac.uk

**Y** Rhiain Bebb rhiain@telyn.cymru

**Dawnsio:** **C** Eleri Jones meelerijones@gmail.com
**Y** Gwenan Phillips Gwenan.phillips@yahoo.co.uk

**Celf a Chrefft:** **C** Islwyn Phillips phillips_islwyn@hotmail.com
**Y** Elinor Wigley Tan Llan, Darowen, Machynlleth, SY20 8NS
elinor459@hotmail.com

**Cyllid**: **C** Huw Jones huwjones792@btinternet.com

**Cyhoeddusrwydd:** Non Bleddyn Jones non@mentermaldwyn.cymru

**Yr Orsedd:** **C** Hedd Pugh heddpugh@me.com
**Is-G** Hedd Bleddyn heddbleddyn@btinternet.com
**Y** Rhian Davies rhian@mentermaldwyn.cymru

**Llety a Chroeso**: **C** Elinor Evans dolgelynen2026@gmail.com
**Y** Jane Lloyd alun300@btinternet.com

**Maes a Threfn** **C** Ifor Roberts robertsifor@hotmail.co.uk
**Y** Eilir Jones joneseilir42@gmail.com

**BEIRNIAID YR EISTEDDFOD**

**Cerdd:**

***Lleisiol:*** Sioned Webb, Huw Ynyr Evans, Trystan Lewis
***Offerynnol a Chyfansoddi*:** Sioned Webb

**Llefaru:** Anni Llŷn

**Cerdd Dant a Chanu Gwerin:** Iwan Morgan, Arfon Williams

**Dawnsio:**

***Gwerin / Stepio:*** Bryn Davies
***Creadigol/Disgo:*** Elin Angharad a Bethan Smith Davies

**Llenyddiaeth a Barddoniaeth:**

***Barddoniaeth:*** Carwyn Eckley
***Rhyddiaith:*** Mari George

**Adran y Dysgwyr:**

***Tlws y Dysgwr:*** Sue Hyland
***Rhyddiaith Agored:*** Felicity Roberts
***Mynediad a Sylfaen:*** Jaci Taylor
***Ysgolion:*** Mererid Haf Roberts

***Llwyfan***
***Llefaru Uwchradd:*** Debbie Gilbert
***Llefaru (agored):*** Haf ap Robert

**Celf a Chrefft:**

***Celf; Gwaith 2D a 3D:*** Jane Barraclough
***Ffotograffiaeth*:** Jane Barraclough
***Gosod Blodau:*** Eluned Besent
***Coginio*:** Margret Jones
***Gwaith Llaw:*** Jane Barraclough

**CYFEILYDDION:** Huw Davies, Eirian Owen, Tudur Jones

**TELYNORION:** Alecs Peate, Llio Penri

**RHESTR TESTUNAU**

**ADRAN CERDDORIAETH LLEISIOL AC OFFERYNNOL**

**<u>LLEISIOL</u>**

1. **Unawd Bl.2 ac iau:** Fi 'Di'r Deinosor – Robat Arwyn (Ffrindiau – CURIAD)
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

2. **Unawd Bl.3 a 4:** Eliffant (Unrhyw 3 phennill) – J.Eirian Jones (Cynghanedd Cariad)
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

3. **Unawd Bl.5 a 6:** Y Pyped - J.Eirian Jones (Cynghanedd Cariad)
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

4. **Deuawd Bl.6 ac iau:** Y Darlun – Davey Davies (Caneuon Ffydd)
Gwobrau 1af: £10, 2il £8, 3ydd: £6

5. **Parti Unsain Bl.6 ac iau** (hyd at 12 mewn nifer): Unrhyw gân yn addas ar gyfer yr haf.
Gwobrau: 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

6. **Côr Bl.6 ac iau** (dros 12 mewn nifer):Hunan ddewisiad **deulais**
Gwobrau: 1af: £50 a tharian C.A.G Gogledd Cymru, 2il: £40, 3ydd: £30

7. **Unawd Bl.7, 8 a 9**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £15, 2il: £12, 3ydd: £10

8. **Unawd Bl.10 a dan 19 oed**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £25, 2il: £20, 3ydd: £15

9. **Deuawd oed Uwchradd**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £20, 2il: £16, 3ydd: £12

10. **Parti Deusain oed Uwchradd** (hyd at 16 mewn nifer)
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

11. **Côr Ieuenctid o dan 25 oed** (dros 16 mewn nifer)
Unrhyw gyfuniad o leisiau i gyflwyno darn hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £175 a Chwpan Sefydliad y Merched Corwen, 2il: £100, 3ydd: £75

12. **Canu Emyn o dan 30 oed**
Unrhyw emyn allan o 'Caneuon Ffydd'
Gwobrau 1af: £30, 2il: £20, 3ydd: £10

13. **Unawd allan o Sioe Gerdd o dan 19 oed**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau 1af: £25, 2il: £20, 3ydd: £15

**14. Unawd allan o Sioe Gerdd dros 19 oed**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

**15. Grŵp Canu i Ddysgwyr** (dros 6 mewn nifer): Perfformio unrhyw gân o'r gyfrol "100 o Ganeuon Pop" gol. Meinir Wyn Edwards, Y Lolfa, 2010
Gwobrau: 1af: £60, 2il: £50, 3ydd: £40

**16. Unawd 19 – 25 oed**
Gwobrau: 1af: £100, 2il: £80, 3ydd: £60

**17. Ensemble Lleisiol agored** (3 i 8 mewn nifer)
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £50, 2il: £40, 3ydd: £30

**18. Canu Emyn dros 60 oed**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau 1af: £40 a Chwpan Coffa Rhys Davies, 2il: £30, 3ydd: £20

**19. Deuawd Agored**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £60, 2il: £40, 3ydd: £30

**20. Unawd Gymraeg**
Unrhyw unawd gan gyfansoddwr o Gymro
Gwobrau: 1af £100 a Chwpan Coffa Rhys Davies: 2il: £80, 3ydd: £60

**21. Unawd Agored**
Unrhyw unawd allan o Opera neu Oratorio
Gwobrau: 1af: £175 a Chwpan Cyngor Tref Croesoswallt, 2il: £100, 3ydd: £75

**22. Parti neu Gôr Capel neu Gymdeithas** (dros 12 mewn nifer)
i gyflwyno un darn hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £175, 2il: £100, 3ydd: £75

**23. Côr Agored (Merched, Dynion neu Gymysg)** (dros 20 mewn nifer)
i gyflwyno dau ddarn cyferbyniol
Gwobrau 1af: £300, 2il: £250, 3ydd £150

## OFFERYNNOL

**24. Unawd Piano Bl.6 ac iau**
Cyflwyniad heb fod yn hwy na 3 munud.
*Rhaid i'r cystadleuydd feddu ar radd 2 piano neu uwch i gystadlu*
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

**25. Unawd Offerynnol (ac eithro piano) Bl.6 ac iau**
Cyflwyniad heb fod yn hwy na 3 munud.
*Rhaid i'r cystadleuydd feddu ar radd 2 neu uwch i gystadlu*
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

**26.** **Unawd Offerynnol oed Uwchradd**
Cyflwyno rhaglen heb fod yn hyw na 5 munud i'w pherfformio
Gwobrau: 1af: £25, 2il: £20, 3ydd: £15

**27.** **Unawd Offerynnol agored**
Cyflwyno rhaglen heb fod yn hyw na 5 munud i'w pherfformio
Gwobrau: 1af: £40 a Thlws Agored Wynstay, 2il: £30, 3ydd: £30

**28.** **Ensemble Offerynnol oed cynradd** (rhwng 2 a 6 mewn nifer)
Cyflwyniad heb fod yn hwy na 3 munud.
Gwobrau: 1af: £30 a Thlws Pwyllgor Addysg Sir Drefaldwyn, 2il: £20, 3ydd: £10

**29.** **Ensemble Offerynnol agored** (rhwng 2 a 6 mewn nifer)
Cyflwyno rhaglen heb fod yn hyw na 5 munud i'w pherfformio
Gwobrau: 1af: £60, 2il: £50, 3ydd: £40

## CYFANSODDI

**30.** **Cyfansoddi Agored**
Cyfansoddi **Tôn Newydd i'r geiriau "Nid wy'n gofyn bywyd moethus"**
Gwobr: £100
*Dyddiad cau*

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'i berlau mân.
Gofyn 'rwyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.

Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos;
Dim ond calon lân all ganu,
Canu'r dydd a chanu'r nos.

Pe dymunwn olud bydol
Chwim adenydd iddo sydd;
Golud calon lân, rinweddol
Yn dwyn bythol elw fydd.

Hwyr y bore fy nymuniad
Gwyd i'r nef ar adain cain cân
Ar i Dduw; er mwyn fy Ngheidwad,
Roddi imi galon lân.

Gwrosydd, 1847-1920

## ***Amodau Arbennig yr Adran Gerdd***

1. Anogir pawb i ddefnyddio'r Gymraeg ac eithrio'r Her Unawd.
2. Rhaid defnyddio cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod ym mhob cystadleuaeth ac eithrio yn y cystadlaethau offerynnol, corau, partïon a sioe gerdd.

3. Y cystadleuwyr yn y cystadlaethau Hunan Ddewisiad i anfon **2 gopi** o'r darnau ar gyfer y beirniaid a'r cyfeilydd i Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd erbyn **1af o Fehefin 2026**
4. Penderfynir trefn ymddangos y corau trwy dugel.
5. Bydd cyfraniad o £75 i bob Côr anfuddugol sydd wedi teithio dros 50 milltir i'r Eisteddfod.
6. Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod

<u>Sylwer</u>: Mae'n anghyfreithlon llungopïo copïau heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint.



**ADRAN LLEFARU**

**31.** **Bl. 2 ac iau** – Cadw mi gei gan Tudur Dylan (Byd Llawn hud)
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

**32.** **Bl. 3 a 4** – gan Mathemateg Mam Mererid Hopwood (Ar bwys...)
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

**33.** **Bl. 5 a 6** – Dwi'm isio adrodd na llefaru gan Myrddin ap Dafydd (Briwsion yn y clustiau)
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

**34.** **Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau :** Darllen y map yn iawn (ar y we)

Gwobrau: 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

**35.** **Bl. 7-9** - Agored
Gwobrau: 1af: £15, 2il: £12, 3ydd: £10

**36.** **Dan 19 oed: Agored**

Gwobrau: 1af: £25, 2il: £20, 3ydd: £15

**37.** **Grŵp Llefaru dan 19 oed** – Agored

Gwobrau: 1af: £50, 2il: £40, 3ydd: £30

**38.** **Oedran Uwchradd:** Monolog hunanddewisiad heb fod yn hwy na 5 munud
Gwobrau: 1af: £25, 2il: £20, 3ydd: £15

**39.** **Prif Gystadleuaeth Lefaru:** Hunanddewisiad
Gwobrau £120, £80, £50

**40.** **Grŵp Llefaru Agored:** Hunanddewisiad
Gwobrau £100, £50, £30

**41.** **Monolog Agored:** Cyflwyno dau ddarn gwrthgyferbyniol heb fod yn hwy na 6 munud.
Gwobrau 1af: £60, 2il: £50, 3ydd: £40

## ADRAN CERDD DANT A CHANU GWERIN

### CERDD DANT

42. **Unawd Blwyddyn 2 ac iau**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

43. **Unawd Blwyddyn 3 - 4**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

44. **Unawd Blwyddyn 5 - 6**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

45. **Parti Oed Cynradd**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af Cwpan Coffa Ted Richards (i'w ddal am flwyddyn) a £40, 2il: £30, 3ydd: £20

46. **Unawd Blwyddyn 7-9**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £15, 2il: £12, 3ydd: £10

47. **Unawd Blwyddyn 10 ac o dan 19 oed**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £25, 2il: £20, 3ydd: £15

48. **Unawd Agored (dros 19 oed)**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

49. **Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Agored**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £60, £40, £30

50. **Côr neu Barti Cerdd Dant Agored**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £100, £50, £30

### CANU GWERIN

51. **Unawd Oedran Cynradd**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £10, £8, £6

52. **Unawd Blwyddyn 7 ac o dan 19 oed**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £10

53. **Unawd Agored (dros 19 oed)**: Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £50, 2il: £40, 3ydd: £30

54. **Grŵp ( 4 i 20 mewn nifer) i ganu unrhyw garol plygain**
Gwobrau: 1af: £50, 2il: £40, 3ydd: £30

55. **Côr/Parti Cân Werin Agored:** Dwy gân gyferbyniol.
Gwobrau: 1af: £100, 2il: £50, 3ydd: £30

***Amodau Arbennig Adran Cerdd Dant a Chanu Gwerin***

**Cerdd Dant**

i) Pob ymgeisydd i gydymffurfio â rheolau'r Gymdeithas Gerdd Dant.
ii) Rhaid anfon copïau o’r geiriau, enw’r gainc, y llyfr y ceir y gainc ynddo, a’r cyweirnod i’r Ysgrifennydd erbyn 1af o Fehefin 2026
iii) Rhaid i bob ymgeisydd dderbyn gwasanaeth y Telynor / Delynores Swyddogol.
iv) Ni chaniateir arweinydd o’r llwyfan nac o’r gynulleidfa i unrhyw eitem.
v) Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol.

**Canu Gwerin**

i) Pob ymgeisydd i anfon copi o’r alaw werin i’r Ysgrifennydd erbyn 1af o Fehefin 2026
ii) Rhaid i bob cân gael ei chanu’n ddigyfeiliant



**DAWNS (Adran dawnsio gwerin, stepio, creadigol a chyfoes)**

## DAWNSIO GWERIN

**56.** **Dawns stepio unigol dan 12 oed** yn defnyddio arddull, patrymau,camau traddodiadol Gymreig ac alawon traddodiadol Gymreig neu Gymreig eu naws.

Amser: Dim hwy na 2 funud

Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

**57.** **Dawns stepio unigol Agored** yn defnyddio arddull, patrymau, camau traddodiadol Gymreig ac alawon traddodiadol Gymreig neu Gymreig eu naws.

Amser: Dim hwy na 3 munud

Gwobrau: 1af: £50, 2il: £40, 3ydd: £30

**58.** **Dawns stepio grŵp Agored** yn defnyddio arddull,patrymau,camau traddodiadol Gymreig ac alawon traddodiadol Gymreig neu Gymreig eu naws.

Amser : Dim hwy na 3 munud

Dim llai na dau mewn nifer

Gwobrau: 1af: £60, 2il: £50, 3ydd: £40

**59.** **Dawns Werin i grŵp dan 12 oed** Hunan ddewisiad

Gwobrau: 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

**60.** **Dawns Werin i grŵp Agored** Hunan ddewisiad

Gwobrau: 1af: £60, 2il: £50, 3ydd: £40

***Amodau Dawnsio Gwerin***

1. Amserir y perfformiad o’r symudiad cyntaf
2. Rhaid enwi’r ddawns werin wrth gofrestru
3. Arwynebedd y llwyfan (8.5m x 5m)

## DAWNSIO CREADIGOL, AML-GYFRWNG A CHYFOES

**61.** **Dawns Greadigol i grŵp Agored** Hunan Ddewisiad
Dim llai na 4 mewn nifer
Amser: Dim hwy na 4 munud
Gwobrau: 1af: £60, 2il: £50, 3ydd: £40

**62.** **Dawns Aml – gyfrwng i grŵp Agored:** Hunan ddewisiad
Dim llai na 4 mewn nifer
Amser: Dim hwy na 4 munud
Gwobrau: 1af: £60, 2il: £50, 3ydd: £40

**63.** **Dawns Agored i bâr neu driawd unrhyw arddull ag eithro dawnsio gwerin/stepio**
Amser: dim hwy na 3 munud
Gwobrau: 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

**64.** **Dawns Unigol dan 12 oed unrhyw arddull ag eithro dawnsio gwerin/stepio**
Amser: dim hwy na 2 funud
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

**65.** **Dawns Unigol Agored unrhyw arddull ag eithro dawnsio gwerin/stepio**
Amser: dim hwy na 2 funud
Gwobrau: 1af: £50, 2il: £40, 3ydd: £20

**66.** **Dawns Grŵp Hip-Hop/stryd/disgo dan 12 oed**
Dim llai na 4 mewn nifer
Amser: dim hwy na 3 munud
Gwobrau: 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

**67.** **Dawns Grŵp Hip-Hop/stryd/disgo** Agored
Dim llai na 4 mewn nifer
Amser: dim hwy na 3 munud
Gwobrau: 1af: £60, 2il: £50, 3ydd: £40

***Amodau Dawnsio Creadigol, Aml – Gyfrwng a Cyfoes***

1. Cerddoriaeth : offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint.
2. Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf.
3. Dawns Greadigol ac Aml-gyfrwng: Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr o'r ddawns i'r beirniad a'r gynulleidfa (dim mwy na 100 o eiriau)
4. Aml – gyfrwng - Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf tair arddull gyferbyniol.
5. Disgwylir i'r dawnswyr wisgo dillad addas a gweddus ar gyfer y ddawns a'r oedran
6. Rhaid sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad.
7. Ni chaniateir cystadlu mewn mwy nag un gystadleuaeth gyda'r un ddawns
8. Arwynebedd y llwyfan (8.5m x 5m)

**ADRAN LLÊN**

## BARDDONIAETH AGORED

**68. Cerdd y Gadair:** Cerdd Gaeth neu rydd - Llwybrau
Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £150.

**69. Cywydd:** Hiraeth
Gwobr: £40

**70. Englyn:** Arwr
Gwobr £40

**71. Englyn Ysgafn:** Paradwys
Gwobr £40

**72. Telyneg:** Amser
Gwobr £30

**73. Soned:** Adre
Gwobr £30

**74. Limrig:** Y bont newydd
Gwobr £30

**75. Tri thriban:** Glyndwr
Gwobr £30

**76. Parodi*:*** Unrhyw gân o un o gynyrchiadau Cwmni Theatr Maldwyn
Gwobr £30

## RHYDDIAITH AGORED

**77. Y Goron:** Casgliad o ddarnau rhyddiaith ar y thema - Gwawrio
Gwobr: Coron a £150

**78. Cyfrol o ryddiaith greadigol neu ffeithiol yn gysylltiedig a Phowys (ardal Powys Fadog neu Bowys Wenwynwyn.)**
Gwobr: £250 (dan nawdd Gwobr Llanbrynmair)

**79. Stori Fer:** Paradwys
Gwobr £30

**80. Cyfraniad i Bapur Bro ar bwnc o ddiddordeb lleol.**
Gwobr £30

**81. Portread o berson:**
Gwobr £30

## ADRAN IEUENCTID - RHYDDIAITH A BARDDONIAETH - dan 25 oed

82. **Tlws Ieuenctid:** Casgliad o 3 darn o waith gwreiddiol.
Gwobr - Tlws Ieuenctid a £75

**Barddoniaeth**

83. **Blwyddyn 10 i 13:** Taith
Gwobr £30 i'w rannu.

84. **Blwyddyn 7-9:** Cynefin neu Perthyn
Gwobr £30 i'w rannu.

85. **Blwyddyn 5-6:** Teulu
Gwobr: £20 i'w rannu.

86. **Blwyddyn 4 ac iau:** Y gêm
Gwobr £20 i'w rannu.

**Rhyddiaith:**

87. **Blwyddyn 10 -13:** Gwaith ffuglen neu ffeithiol (Agored)
Gwobr £30 i'w rannu.

88. **Blwyddyn 7-9:** Fy ardal
Gwobr £30 i'w rannu.

89. **Blwyddyn 5-6:** Fy hoff le
Gwobr £20 i'w rannu.

90. **Blwyddyn 4 ac iau**: Fy hoff anifail
Gwobr £20 i'w rannu.

***Amodau Adran Llenyddiaeth a Barddoniaeth***

1. Rhaid i bob ymgeisydd, wrth anfon y cyfansoddiad, gynnwys ei enw priodol, cyfeiriad a rhif y gystadleuaeth dan sêl mewn amlen gyda'r ffugenw a rhif y gystadleuaeth ar y blaen.
2. Ni dderbynnir unrhyw waith a wobrwywyd o'r blaen.
3. Atelir y wobr ariannol yng nghystadlaethau'r Gadair, y Goron a'r Tlysau oni fydd y buddugol neu ei g/chynrychiolydd yn bresennol.
4. Yr holl gyfansoddiadau i'w teipio neu eu hysgrifennu ar un ochr y ddalen yn unig.
5. Bydd hawlfraint yr holl gyfansoddiadau buddugol yn yr adran Llên yn eiddo Cymrodoriaeth Cadair Powys yn unig am dri mis o ddyddiad yr Eisteddfod a bydd hawl i'w cyhoeddi yng nghyfrol cynhyrchion buddugol yr Eisteddfod.
6. Rhaid i gyfansoddiadau'r Goron a'r Gadair ynghyd â'r ffurflen gystadlu gyrraedd Ysgrifennydd neu Gadeirydd y Pwyllgor Llên erbyn yr 20fed o Ebrill 2026. Y cyfansoddiadau eraill i gyrraedd erbyn 25 o Fai 2026.
7. Dychwelir cyfansoddiadau anfuddugol i ymgeiswyr, os gofynnir amdanynt trwy Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên / Barddoniaeth cyn Awst 31ain 2026 (Noder y ffugenw, rhif ac enw'r gystadleuaeth ac amgaeer tâl cludiant post.)
Rhaid i'r cyfansoddiadau i gyd fod yn yr iaith Gymraeg.

8. Rhaid i'r cyfansoddiadau i gyd fod yn yr iaith Gymraeg.

9. Cynhelir "Pabell Lên" yn ystod yr Eisteddfod i drafod gwaith buddugwyr y prif gystadlaethau llenyddol.

***Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod.***



**ADRAN CYSTADLAETHAU I DDYSGWYR**

**RHYDDIAITH**

**91.** **Cystadleuaeth Tlws y Dysgwr**: (Agored i ddysgwyr 16 oed a throsodd.)
**Gofynnir am ddau ddarn o waith gwreiddiol** (e.e. llythyr, stori, ysgrif, cerdd, blog, ymson, deialog, dyddiadur, adolygiad o lyfr, rhaglen deledu neu ffilm)
Gwobr: Tlws a £75
**Thema: Hunan Ddewisiad**

**92.** **Lefel Mynediad**: (100 o eiriau)
Gwobrau: £20, £15, £10
**Sgwrs mewn siop sglodion**

**93**. **Lefel Sylfaen**: (150 o eiriau)
Gwobrau: £20, £15, £10
**Y Gwyliau Perffaith**

**94**. **Lefel Canolradd** (200 o eiriau)
Gwobrau: £20, £15, £10
**Sgwrs rhwng dau ddieithryn ar drên**

**95.** **Lefel Agored: Gwaith grŵp neu unigol**:
Gwobrau: £30, £25, £20
**Taflen wybodaeth – 'Dewch i fy ardal'**

**RHYDDIAITH IEUENCTID (DYSGWYR)**

**96**. **Blwyddyn 7 - 9** ( 100 o eiriau )
Gwobrau: £15, £12, £10
Neges i ddiolch am anrheg

**97.** **Blwyddyn 10 - 13**
Gwobrau: £25, £20, £15
Neges bwrw bol/ neges i gwyno

**CYSTADLAETHAU LLWYFAN (DYSGWYR)**

**98**. **Blwyddyn 7-9: Llefaru Unigol**
Deg o Elyrch Gwynion, Robin Llwyd ab Owain - *Poeth!* Y Lolfa
Gwobrau: £15, £12, £10

**99.** **Blwyddyn 10 a dan 19 oed: Llefaru Unigol**
A Gymri di Gymru, Robat Gruffudd - *Poeth!* Y Lolfa
Gwobrau: £25, £20, £15

**LLWYFAN / AGORED (DYSGWYR)**

**100. Côr/Parti Dysgwyr** (Gweler Cystadleuaeth **Rhif 15** yn Adran Cerdd) :-
Perfformio unrhyw gân o'r gyfrol "100 o Ganeuon Pop" gol. Meinir Wyn Edwards, Y Lolfa, 2010
*Beirniad:* ***Beirniad Cerdd***
Gwobrau: £60, £40, £30

**101. Llefaru Unigol:-**
'Darllen y Map yn Iawn', Twm Morys o'r gyfrol *Fesul Gair,* Gol. Tudur Dylan Jones
Gwobrau: £40, £30, £20

**102. Grŵp Llefaru:-**
'Cyd-fyw', Menna Elfyn o'r gyfrol *Fesul Gair,* Gol. Tudur Dylan Jones
Gwobrau: £60, £40, £30

**103. Sgwrsio**:- (hyd at 5 munud)
Sgwrs ar ôl y dosbarth
Gwobrau: £30, £20, £10

***Amodau Adran y Dysgwyr***
*Gweler Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod ac Amodau Adran Llenyddiaeth yr Eisteddfod.*



**ADRAN CELF A CHREFFT**

Gosodir thema **“O'r mynydd i'r môr”** I'r holl gystadlaethau lle nodir “o dan y themau”

*The theme of the competitions where “under the theme” is noted is **“from the mountain to the sea”***

**CELF**

**Gwaith mewn unrhyw gyfrwng** e.e arlunio, argraffu, cyfrifiadur, brodwaith, modelu ayyb (o dan y themâu) Dylai’r gwaith 2D gael ei osod ar gerdyn neu gael ei fframio.

***Work in any medium** e.g. paint/drawing, printing, computer art, embroidery, modelling etc (under the theme). The 2D work should be mounted on card or framed.*

**104. Agored / Open**

Gwobrau / Prizes: 1af £40 2il £30 3ydd £20

**105. O dan 19 oed / Under 19 years old.**

Gwobrau / Prizes: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

**106. Oedran cynradd / Primary school age:**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**Ffotograffiaeth** (o dan y themâu) gellir cyflwyno un ffotograff unigol, neu grwp o ffotograffau (dim mwy na 4) Dylai’r gwaith gael ei osod ar gerdyn neu gael ei fframio

***Photography** (under the theme) a single photograph or a group of photographs (max 4) will be acceptable. The work should be mounted on card or framed.*

**107. Agored / Open**

Gwobrau / Prizes: 1af £40 2il £30 3ydd £20

**108. O dan 19 oed / Under 19 years old.**

Gwobrau / Prizes: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

**109. Oedran cynradd blynyddoedd 3, 4, 5, 6 / Primary school age: Years 3, 4, 5, 6**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**110. Oedran Cynradd- Blynyddoedd D,1 a 2 / Primary school age years R,1,2**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**111. Gwaith digidol Instagram. Oedran 13+ / *Instagram digital work. Age 13+***

Llun ar blatfform cyfrwng cymdeithaso “Instagram” sy’n dangos yr ardal ar ei gorau. Gelli'r postio’r llun gyda’r hashnod #EisteddfodPowys2026. Sicrhewch fod eich proffil yn gyhoeddus a chynnwys enw eich cyfrif ar y ffurflen gofrestru. Caniateir defnyddio hidlyddion (filters) o fewn yr app.

*A photo on the social media platform "Instagram" that shows the area at its best. You can post the picture with the hashtag #EisteddfodPowys2026. Make sure your profile is public and include your account name on the registration form. Filters are allowed within the app.*

**CELFYDDYD Y CARTREF**

**Gosod Blodau** (o dan y themâu)

Cwpan David Peate I'w ddal am flwyddyn I'r gwaith gorau yn yr adran Gosod Blodau.

**Flower arranging** (under the theme)

The David Peate Cup (to be held for one year) will be awarded to the best exhibit in the flower arranging section.

**113. Agored / Open (dim mwy na 60 x 60cm / no more than 60 x 60cm)**

Gwobrau / Prizes: 1af £40 2il £30 3ydd £20

**114. O dan 19 oed / Under 19 years old. (dim mwy na 60 x 60cm / no more than 60 x 60cm)**

Gwobrau / Prizes: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

**115. Oedran cynradd blynyddoedd 3, 4, 5, 6 / Primary school age: Years 3, 4, 5, 6 (dim mwy na 40 x 40cm / no more than 60 x 60cm)**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**116. Oedran Cynradd- Blynyddoedd D, 1 a 2 / Primary school age years R,1,2 (dim mwy na 40 x 40cm / no more than 60 x 60cm)**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**COGINIO**

**Te Cymreig wedi ei gyflwyno ar hambwrdd** (yr Hambwrdd i fesur dim mwy na 60 x 40cm). Tlws am y gwaith gorau yn yr adran coginio

***Welsh tea presented on a tray.*** *(The tray to measure no more than 60 x 40cm).Trophy for the best exhibit in the Cookery section*

**117. Agored / Open**

Gwobrau / Prizes: 1af £40 2il £30 3ydd £20

**118. O dan 19 oed / Under 19 years old.**

Gwobrau / Prizes: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

**119. Oedran cynradd blynyddoedd 3, 4, 5, 6 / Primary school age: Years 3, 4, 5, 6**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**120. Oedran Cynradd- Blynyddoedd D, 1 a 2 / Primary school age years R,1,2**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**CREFFT**

**Unrhyw eitem wedi greu mewn unrhyw cyfrwng** / cyfuniad o gyfryngau e.e. pren, plastig, metel, gwydr, ailgylchu gwastraff a.y.y.b.

***Any item created in any medium*** *or combination of mediums e.g. wood, plastic, metal, glass, recycled materials etc.*

**121. Agored / Open**

Gwobrau / Prizes: 1af £40 2il £30 3ydd £20

**122. O dan 19 oed / Under 19 years old.**

Gwobrau / Prizes: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

**123. Oedran cynradd blynyddoedd , 3,4,5,6 / Primary school age: Years 3,4,5,6**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**124. Oedran Cynradd- Blynyddoedd 0, 1 a 2 / Primary school age years 0,1,2**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**Unrhyw eitem o waith llaw tecstiliau** wedi greu mewn unrhyw cyfrwng / cyfuniad o gyfryngau e.e. grosio, gwau a.y.y.b.

***Any item of textile handcraft*** *created in any medium or combination of mediums e.g. crochet, knitting etc*

**125. Agored / Open**

Gwobrau / Prizes: 1af £40 2il £30 3ydd £20

**126. O dan 19 oed / Under 19 years old.**

Gwobrau / Prizes: 1af: £20, 2il £15, 3ydd £10

**127. Oedran cynradd blynyddoedd 3, 4, 5, 6 / Primary school age: Years 3, 4, 5, 6**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

**128. Oedran Cynradd- Blynyddoedd D, 1 a 2 / Primary school age years R,1,2**

Gwobrau / Prizes: 1af 10, 2il: £8, 3ydd: £6.

---

***<u>Amodau Arbennig ar gyfer Adran Celf a Chrefft</u>***

1. Rhaid i'r holl gynnyrch fod yn waith y cystadleuydd.
2. Dim eitemau i gael eu golchi na'u glanhau.
3. Rhaid i'r ffurflenni cystadlu fod yn llaw Ysgrifennydd y Pwyllgor Celf a Chrefft (Mrs Elinor Wigley) erbyn 20fed o Fehefin 2026.
4. **PWYSIG:** Dylid trefnu i <u>gynnyrch Crefftau</u> (Gwaith 2 a 3D, Ffotograffiaeth, Celfyddyd Cartref – Gwaith Llaw) gyrraedd **yr arddangosfa Celf a Chrefft rhwng 3.30y.h. a 6y.h. ddydd Iau, 2il o Orffennaf 2026**.Y <u>Cynnyrch Coginio, a Gosod Blodau</u> i gyrraedd **yr arddangosfa Celf a Chrefft rhwng 3.30y.h. a 6y.h. ddydd Gwener, 3ydd o Orffennaf 2026.**
5. **Dylid cyflwyno amlen dan sêl ynghlwm wrth bob eitem, yn cynnwys** :-
    a. Rhif y gystadleuaeth
    b. Enw'r gystadleuaeth
    c. Ffugenw'r cystadleuydd
    d. Enw a chyfeiriad y cystadleuydd
    e. Blwyddyn ysgol (os yn gystadleuaeth oed ysgol)

   **Rhowch rif y gystadleuaeth, ffugenw a dosbarth ysgol (os yn berthnasol) yn unig ar glawr yr amlen.**
6. Eiddo'r cystadleuydd fydd yr holl gynnyrch.
7. Rhoddir derbynneb am bob eitem a ddaw i law. Rhaid dangos y rhain pan **gesglir yr eitemau o'r arddangosfa rhwng 6 a 7 o'r gloch, nos Sadwrn, 4ydd o Orffennaf 2026.**
8. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i'r cynnyrch.
9. Bydd barn y beirniad yn derfynol.
10. Os oes unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn cystadlu ni chaniateir iddo/iddi fod yn bresennol yn ystod y beirniadu.

***FFURFLEN GYSTADLU LLWYFAN***
ADRANNAU CERDD, LLEFARU, CERDD DANT / CANU GWERIN / DYSGWYR / DAWNSIO

**EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS**
**BRO DDYFI 2026**

**FFURFLEN GYSTADLU**
***I SYLW YSGRIFENYDD / ION YR IS-BWYLLGOR/AU PRIODOL:***

***ENW :*** CYSTADLEUYDD/PARTI/CÔR: ________________________________

FFUGENW (os yn gymwys): ________________________________

ENW'R CYSWLLT: ________________________________

CYFEIRIAD: ________________________________

________________________________

RHIF(AU) FFÔN : ________________________________

E-bost: ________________________________

| Rhif y Gystadleuaeth | Adran |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

***Yr wyf/ydym yn ymrwymo i gydymffurfio a'r amodau arbennig a chyffredinol sydd yn y Rhestr Testunau.***

Y ffurflen hon i'w dychwelyd i Ysgrifenydd / ion y Pwyllgorau / Adrannau priodol **erbyn y dyddiadau a nodir**
(Gweler manylion cyswllt ar Dudalennau 7 - 8)

*(Gellir llungopio copiau ychwanegol o'r ffurflen hon yn ôl yr angen neu cofrestu ar lein.)*

***FFURFLEN GYSTADLU LLWYFAN***
ADRANNAU CERDD, LLEFARU, CERDD DANT / CANU GWERIN / DYSGWYR / DAWNSIO

**EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS**
**BRO DDYFI 2026**

**FFURFLEN GYSTADLU**
***I SYLW YSGRIFENYDD / ION YR IS-BWYLLGOR/AU PRIODOL:***

***ENW :*** CYSTADLEUYDD/PARTI/CÔR: ________________________________

FFUGENW (os yn gymwys): ________________________________

ENW'R CYSWLLT: ________________________________

CYFEIRIAD: ________________________________

________________________________

RHIF(AU) FFÔN : ________________________________

E-bost: ________________________________

| Rhif y Gystadleuaeth | Adran |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

***Yr wyf/ydym yn ymrwymo i gydymffurfio a'r amodau arbennig a chyffredinol sydd yn y Rhestr Testunau.***

Y ffurflen hon i'w dychwelyd i Ysgrifenydd / ion y Pwyllgorau / Adrannau priodol **erbyn y dyddiadau a nodir**
(Gweler manylion cyswllt ar Dudalennau 7 - 8)

*(Gellir llungopio copiau ychwanegol o'r ffurflen hon yn ôl yr angen neu cofrestu ar lein.)*

**EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS**
**BRO DDYFI 2026**

**FFURFLEN GYSTADLU / ENTRY FORM**

***ADRAN CELF A CHREFFT / ARTS AND CRAFTS SECTION***

| Adran<br>Section | Rhif y Gystadleuaeth<br>Competition Number | Ffugenw<br>Nom-de-Plume | Disgrifiad o'r eitem<br>Item Description |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

ENW / NAME:

CYFEIRIAD / ADDRESS:

RHIF FFÔN:

E-BOST :

I'w dychwelyd i Mrs Elinor Wigley erbyn yr 20fed o Fehefin 2026.
*To be returned by to Mrs Elinor Wigley by the 20th of June 2026*

*(Gellir llun-gopio copïau ychwanegol o'r ffurflen hon yn ôl yr angen.)*

**EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS**
**BRO DDYFI 2026**

**FFURFLEN GYSTADLU / ENTRY FORM**

***ADRAN CELF A CHREFFT / ARTS AND CRAFTS SECTION***

| Adran<br>Section | Rhif y Gystadleuaeth<br>Competition Number | Ffugenw<br>Nom-de-Plume | Disgrifiad o'r eitem<br>Item Description |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

ENW / NAME:

CYFEIRIAD / ADDRESS:

RHIF FFÔN:

E-BOST :

I'w dychwelyd i Mrs Elinor Wigley erbyn yr 20fed o Fehefin 2026.
*To be returned by to Mrs Elinor Wigley by the 20th of June 2026*

*(Gellir llun-gopio copïau ychwanegol o'r ffurflen hon yn ôl yr angen.)*

**CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS**
**Elusen Gofrestredig 502565**

**Eisteddfod Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys Bro Ddyfi 2026**

**CYFRANIADAU ARIANNOL A NODDI GWOBRAU**
Mae Eisteddfod Talaith a Chadair Powys, gyda'i holl draddodiadau yn ddibynnol ar gefnogaeth ariannol i sicrhau llwyfannu gŵyl llwyddiannus sy'n adlewyrchu safonau ei gorffennol. Mae Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Cymrodoriaeth Powys Bro Ddyfi 2026 yn apelio am gyfraniadau a chefnogaeth hael i'r Ŵyl.
Gellir cyfrannu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol, neu noddi gwobrau cystadlaethau penodol neu un o brif seremonïau neu ddigwyddiadau'r Eisteddfod.
Dylid anfon eich cyfraniadau i'r Trysorydd. Rhestrir enwau cyfranwyr ariannol o dros **£25** yn Rhaglen y Dydd. Derbynnir pob rhodd yn ddiolchgar.
Mae'r Gymrodoriaeth yn Elusen gofrestredig ac felly yn cael hawlio Rhodd Cymorth ar bob rhodd gan unigolion neu gwmnïau sy'n drethdalwyr yn y DU. Apeliwn felly am gyfranwyr sy'n drethdalwyr yn y DU i gwblhau'r ffurflen Rhodd Cymorth.

**Sieciau yn daladwy i:** Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys

***FINANCIAL CONTRIBUTIONS AND PRIZE SPONSORSHIP***
*The success of the Powys Provincial and Chair Eisteddfod, with all its traditions, demands adequate financial backing to ensure the staging of a festival worthy of its past. The Executive Committee of the Cymrodoriaeth Powys Eisteddfod Bro Ddyfi is appealing for kind donations and generous support for this event. Contributions can be made directly to the general fund, to sponsoring specific competition prizes, to sponsorship of one of the main ceremonies or to any Eisteddfod related events.*
*Donations should be passed to the Treasurer. The names of all financial contributors, donating in excess of **£25** will be printed in the Eisteddfod Programme. All donations will be gratefully received.*
*The 'Gymrodoriaeth' is a registered charity and is therefore entitled to claim Gift Aid on all donations from UK tax- paying companies or individuals. If you are a UK tax payer please complete the relevant section on the donation form.*

***All cheques should be made payable to:** Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys*

**TREFN ARBENNIG TALIADAU / CYFRANIADAU BACS**
**Trosglwyddiadau uniongyrchol trwy'r banc**

**Enw'r Cyfrif:** Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys

**Banc:** **HSBC**

**Cod Didoli:** **40-30-11**

**Rhif y Cyfrif:** **3122687**

**Mae taliadau uniongyrchol yn osgoi ffioedd am fancio sieciau ac arian parod.**

**EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS**
**BRO DDYFI 2026**

**FFURFLEN CYFRANIAD / NAWDD**
**CONTRIBUTION / SPONSORSHIP FORM**

Enw / Name : ..................................................................................................

Cyfeiriad / Address. : ...............................................................................

.........................................................Côd Post / Post Code.................................

Dyddiad / Date .............................................................................

**Amgaeaf siec / arian am y swm o £_____________** yn rhodd i Eisteddfod Powys 2026

**I enclose a cheque / cash for £_____________** as a donation to Eisteddfod Powys 2026

*Nodwch isod* os gwelwch yn dda os dymunir noddi adran neu gystadleuaeth arbennig.*
*Please specify below* if you wish to sponsor a particular section or competition.*

***_________________________________________**

## Datganiad Rhodd-gymorth

Os dymunwch i'r Eisteddfod, trwy'r Gymrodoriaeth, fanteisio ar nawdd y Cynllun Rhodd Cymorth a fyddech mor garedig â llofnodi'r datganiad isod
(* dileu fel yn briodol)

*Dymunaf i Eisteddfod Talaith a Chadair Powys drin fy rhodd fel Rhodd Cymorth.

*Dymunaf i Eisteddfod Talaith a Chadair Powys drin yr holl roddion a wnaf o ddyddiad y datganiad hwn hyd oni ddywedaf yn wahanol fel Rhodd Cymorth.
Rwyf yn nodi bod rheidrwydd arnaf dalu swm sydd o leiaf yn cyfateb i'r dreth sy'n cael ei dynnu gan yr Eisteddfod oddi wrth y rhodd yma (25c am bob £1 a roddwch ar hyn o bryd)

**Arwyddwyd ...................................**

**Dyddiad ........................................**

Anfoner pob rhodd ynghyd â'r ffurflen hon i Drysorydd Eisteddfod Powys Bro Ddyfi 2026

## Gift-aid declaration

If you wish the Eisteddfod, through the Gymrodoriaeth, to benefit from the Gift Aid Scheme would you kindly sign the declaration below
(*delete as necessary)

*I want the Powys Provincial and Chair Eisteddfod to treat my donation as Gift Aid

*I want the Powys Provincial and Chair Eisteddfod to treat all donations I make from the date of this declaration until I notify you otherwise as Gift Aid.
I note that I must pay an amount of income tax at least equal to the tax that is reclaimed by the Eisteddfod on this donation (currently 25p for every £1 you give)

**Signed .........................................…**

**Date .............................................**

Please send all donations together with this form to the Treasurer: Eisteddfod Powys Bro Ddyfi 2026

**EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS**
**BRO DDYFI 2026**

**FFURFLEN CYFRANIAD / NAWDD**
**CONTRIBUTION / SPONSORSHIP FORM**

Enw / Name : ..................................................................................................

Cyfeiriad / Address. : ..............................................................................

..........................................................Côd Post / Post Code.................................

Dyddiad / Date ...............................................................................

**Amgaeaf siec / arian am y swm o £_____________** yn rhodd i Eisteddfod Powys 2026

**I enclose a cheque / cash for £_____________** as a donation to Eisteddfod Powys 2026

*Nodwch isod* os gwelwch yn dda os dymunir noddi adran neu gystadleuaeth arbennig.*
*Please specify below* if you wish to sponsor a particular section or competition.*

*______________________________________________

## Datganiad Rhodd-gymorth

Os dymunwch i'r Eisteddfod, trwy'r Gymrodoriaeth, fanteisio ar nawdd y Cynllun Rhodd Cymorth a fyddech mor garedig â llofnodi'r datganiad isod
(* dileu fel yn briodol)

*Dymunaf i Eisteddfod Talaith a Chadair Powys drin fy rhodd fel Rhodd Cymorth.

*Dymunaf i Eisteddfod Talaith a Chadair Powys drin yr holl roddion a wnaf o ddyddiad y datganiad hwn hyd oni ddywedaf yn wahanol fel Rhodd Cymorth.
Rwyf yn nodi bod rheidrwydd arnaf dalu swm sydd o leiaf yn cyfateb i'r dreth sy'n cael ei dynnu gan yr Eisteddfod oddi wrth y rhodd yma (25c am bob £1 a roddwch ar hyn o bryd)

**Arwyddwyd** ...................................

**Dyddiad** .......................................

Anfoner pob rhodd ynghyd â'r ffurflen hon i Drysorydd Eisteddfod Powys Bro Ddyfi 2026

## Gift-aid declaration

If you wish the Eisteddfod, through the Gymrodoriaeth, to benefit from the Gift Aid Scheme would you kindly sign the declaration below
(*delete as necessary)

*I want the Powys Provincial and Chair Eisteddfod to treat my donation as Gift Aid

*I want the Powys Provincial and Chair Eisteddfod to treat all donations I make from the date of this declaration until I notify you otherwise as Gift Aid.
I note that I must pay an amount of income tax at least equal to the tax that is reclaimed by the Eisteddfod on this donation (currently 25p for every £1 you give)

**Signed** ..........................................…

**Date** .............................................

Please send all donations together with this form to the Treasurer: Eisteddfod Powys Bro Ddyfi 2026

# Eisteddfod Powys

## Bro Ddyfi

2026

Eisteddfod Powys
Bro Ddyfi
2026